OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1493 (Cy.136)

# DŴR, CYMRU

## Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *26 Mai 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *27 Mai 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *18 Mehefin 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 92 a 219(2)(d) i (f) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(**1**).

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru, a deuant i rym ar 18 Mehefin 2010.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae "adeiladu" ("*construct*") yn cynnwys gosod;

ystyr "Asiantaeth yr Amgylchedd" ("*Environment Agency*") yw'r asiantaeth a sefydlwyd o dan Bennod I o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**2**);

ystyr "da byw" ("*livestock*") yw—

(a) anifeiliaid sy'n cael eu cadw ar gyfer cynhyrchu bwyd neu wlân, neu

(b) adar sy'n cael eu cadw ar gyfer cynhyrchu bwyd;

ystyr "elifiant silwair" ("*silage effluent*") yw elifiant o silwair;

ystyr "olew tanwydd" ("*fuel oil*") yw olew a fwriedir i'w ddefnyddio fel tanwydd i gynhyrchu gwres neu bŵer ond nid yw'n cynnwys olew a fwriedir i'w ddefnyddio yn unig fel tanwydd

(**1**) 1991 p.57. Yn rhinwedd: (1) Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac Atodlen 2 iddo, O.S. 1999/672 a (2) Adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 11 iddi, p. 32; mae swyddogaethau o dan adrannau 92 a 219 bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru.

(**2**) 1995 p.25.

i gynhesu tŷ fferm neu fangreoedd preswyl eraill ar fferm ac sy'n cael ei storio ar wahân i olew arall;

ystyr "pydew derbyn" ("*reception pit*") yw pydew a ddefnyddir i gasglu slyri cyn ei drosglwyddo i danc storio slyri neu i gasglu slyri sy'n cael ei ollwng o danc o'r fath;

ystyr "seilo" ("*silo*") yw adeiladwaith a ddefnyddir i wneud neu i storio silwair;

mae "silwair" ("*silage*") yn cynnwys cnwd sy'n cael ei wneud yn silwair;

ystyr "slyri" ("*slurry*") yw mater hylifol neu led hylifol a'i gynnwys yw—

(a) tail a gynhyrchir gan dda byw tra maent ar fuarth neu mewn adeilad (gan gynnwys da sy'n cael eu cadw mewn corlannau sglodion coed); neu

(b) cymysgedd sy'n cynnwys yn gyfan gwbl neu'n bennaf dail da byw, gwasarn da byw, dŵr glaw a golchion o adeilad neu fuarth a ddefnyddir gan dda byw,

ac o ddwyster sy'n caniatáu iddo gael ei bwmpio neu ei ollwng drwy ddisgyrchiant ar unrhyw gymal yn y broses o'i drin;

mae "tanc storio slyri" ("*slurry storage tank*") yn cynnwys lagŵn, pydew (ac eithrio pydew derbyn) neu dŵr sy'n cael ei ddefnyddio i storio slyri.

(2) Mae cyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at system storio slyri yn cynnwys tanc storio slyri ac—

(a) unrhyw bydew derbyn ac unrhyw danc elifiant sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r tanc; a

(b) unrhyw sianelau a phibellau sy'n cael eu defnyddio mewn cysylltiad â'r tanc, ag unrhyw bydew derbyn neu unrhyw danc elifiant.

(3) Bodlonir gofyniad yn y Rheoliadau hyn i seilo neu danc storio slyri gydymffurfio â Safon Brydeinig (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) os yw'r seilo neu'r tanc yn cydymffurfio â safon neu â manyleb sy'n darparu lefel gyfatebol o warchodaeth a pherfformiad ac sy'n cael ei chydnabod i'w defnyddio mewn Aelod-wladwriaeth, yn Ynys yr Iâ, Liechtenstein, Norwy neu Dwrci.

### Gwneud neu storio silwair

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i berson sydd â silwair sy'n cael ei wneud neu ei storio dan ei ofal neu ei reolaeth sicrhau—

(a) bod y silwair yn cael ei gadw mewn seilo sy'n bodloni gofynion Atodlen 1; neu

(b) fod y silwair yn cael ei gywasgu i fyrnau—

(i) sydd wedi'u lapio a'u selio mewn pilennau anhydraidd, neu wedi'u cau mewn bagiau anhydraidd; a

(ii) sydd wedi'u storio o leiaf 10 o fetrau oddi wrth unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol neu ddyfroedd arfordirol y gallai elifiant sy'n dianc o'r byrnau fynd i mewn iddynt; neu

(c) os mai cnwd yw'r silwair sy'n cael ei wneud yn silwair maes (hynny yw, silwair sy'n cael ei wneud ar dir agored drwy ddull gwahanol i'r dull byrnau y cyfeirir ato yn is-baragraff (b)), neu os mai silwair sy'n cael ei storio ar dir agored ydyw—

(i) bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn cael ei hysbysu o'r man lle bydd y silwair yn cael ei wneud neu ei storio o leiaf 14 o ddiwrnodau cyn defnyddio'r fan honno at y pwrpas hwnnw am y tro cyntaf; a

(ii) bod y fan honno o leiaf 10 o fetrau oddi wrth unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol neu ddyfroedd arfordirol, ac o leiaf 50 o fetrau oddi wrth y lle agosaf y tynnir dŵr perthnasol o unrhyw ffynhonnell cyflenwi dŵr warchodedig y gallai elifiant silwair fynd i mewn iddynt petai'n dianc.

(2) At ddibenion paragraff (1)(c)(ii), mae ffynhonnell cyflenwi dŵr yn ffynhonnell cyflenwi dŵr warchodedig—

(a) os oes unrhyw dynnu dŵr perthnasol o'r ffynhonnell wedi'i drwyddedu o dan Ran II o'r Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991; neu

(b) os yw'r person sy'n gwneud neu'n storio'r silwair yn ymwybodol o leoliad y ffynhonnell—

(i) cyn dechrau ar wneud y silwair; neu

(ii) os gwnaed y silwair mewn man arall, cyn ei storio ar y tir dan sylw.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i silwair tra'i fod yn cael ei storio dros dro mewn cynhwysydd, ôl-gerbyd neu gerbyd mewn cysylltiad â'i gludo o gwmpas y fferm neu fan arall.

(4) Rhaid i berson sydd â bwrn silwair dan ei ofal neu ei reolaeth beidio ag agor na symud ymaith yr hyn sy'n lapio'r bwrn o fewn 10 o fedrau i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol neu ddyfroedd arfordirol y gallai elifiant silwair, o ganlyniad, fynd i mewn iddynt.

(5) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr “tynnu dŵr perthnasol” yw tynnu dŵr ar gyfer ei ddefnyddio—

(i) i'w yfed gan bobl; neu

(ii) at ddibenion domestig (o fewn yr ystyr a roddir i “*domestic purposes*” gan adran 218 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(**3**)) heblaw at ei yfed gan bobl; neu

(iii) i weithgynhyrchu bwyd neu ddiod i'w fwyta neu i'w yfed gan bobl; a

(b) ystyr “ffynhonnell cyflenwi dŵr” yw dyfroedd croyw mewndirol neu ddyfroedd daear y tynnir dŵr perthnasol ohono neu y trwyddedir tynnu dŵr perthnasol ohono.

**Storio slyri**

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) rhaid i berson sydd â slyri dan ei ofal neu ei reolaeth ei storio mewn system storio slyri sy'n bodloni gofynion Atodlen 2, a system felly'n unig.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i slyri tra bo'n cael ei storio dros dro mewn tancer sy'n cael ei ddefnyddio i gludo slyri ar ffyrdd neu o gwmpas fferm.

**Storio olew tanwydd ar ffermydd**

**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i berson sydd ag olew tanwydd dan ei ofal neu ei reolaeth ar fferm sicrhau ei fod yn cael ei storio—

(a) mewn tanc storio tanwydd o fewn man neu gyfleustra storio sy'n bodloni gofynion Atodlen 3;

(b) mewn drymiau o fewn man storio o'r fath; neu

(c) mewn tanc storio tanwydd tanddaearol.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys—

(a) i storio olew tanwydd dros dro mewn tancer sy'n cael ei ddefnyddio i gludo olew tanwydd ar ffyrdd neu o gwmpas fferm; neu

(b) pan nad yw'r cyfanswm o olew tanwydd sy'n cael ei storio dros dro ar y fferm yn fwy na 1,500 o litrau.

(**3**) 1991 p.56.

**Esemptiadau**

**6.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i seilo, system storio slyri na thanc storio tanwydd—

(a) a ddefnyddid, cyn 1 Mawrth 1991, at y diben o wneud silwair, storio slyri neu storio olew tanwydd, yn ôl y digwydd;

(b) onis defnyddid cyn 1 Mawrth 1991 at y diben hwnnw, a adeiladwyd cyn y dyddiad hwnnw ar gyfer y defnydd hwnnw; neu

(c) mewn perthynas â pha un—

(i) y gwnaed contract cyn 1 Mawrth 1991 i'w adeiladu, ei ehangu'n sylweddol neu ei ailadeiladu'n sylweddol, neu

(ii) y cychwynnwyd ar waith o'r fath cyn y dyddiad hwnnw, ac

yn y naill achos a'r llall fod y gwaith wedi'i gwblhau cyn 1 Medi 1991.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i seilo, system storio slyri neu danc storio tanwydd sy'n bodloni gofynion paragraff (1) os na chydymffurfir ag unrhyw ofyniad mewn hysbysiad o dan reoliad 7 o fewn y cyfnod a nodir yn yr hysbysiad.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad ym mharagraff (2) at y cyfnod a nodir mewn hysbysiad yn gyfeiriad at y cyfnod hwnnw fel y'i hestynnwyd os cafodd ei estyn o dan reoliad 7(6)(b) neu yn rhinwedd rheoliad 8(6) ac mae unrhyw gyfeiriad yn y paragraffau hynny at ofyniad mewn hysbysiad yn gyfeiriad at y gofyniad hwnnw fel y'i haddaswyd os cafodd ei addasu o dan reoliad 7(6).

**Hysbysiad yn gwneud gwaith etc. yn ofynnol**

**7.**—(1) Caiff Asiantaeth yr Amgylchedd, mewn amgylchiadau y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt, gyflwyno hysbysiad ("hysbysiad rheoliad 7") i berson sydd â silwair, slyri, neu olew tanwydd dan ei ofal neu ei reolaeth, neu sydd yn gyfrifol am y seilo, y system storio slyri neu'r tanc storio olew tanwydd, yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw wneud gwaith, neu gymryd rhagofalon neu gamau eraill, a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Rhaid i'r gwaith, y rhagofalon neu'r camau eraill fod, ym marn Asiantaeth yr Amgylchedd, yn briodol, o ystyried gofynion y Rheoliadau hyn, o gwtogi hyd yr eithaf, unrhyw risg sylweddol o lygru dyfroedd sydd dan reolaeth.

(3) Rhaid i'r hysbysiad—

(a) pennu neu ddisgrifio'r gwaith, y rhagofalon neu'r camau eraill y mae'n ofynnol i'r person eu gwneud neu eu cymryd;

(b) datgan y cyfnod y mae'n rhaid cydymffurfio ag unrhyw ofyniad o'r fath o'i fewn; ac

(c) hysbysu'r person o effaith rheoliad 8.

(4) Y cyfnod i gydymffurfio a nodir yn yr hysbysiad yw—

(a) 28 niwrnod; neu

(b) unrhyw gyfnod hwy sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau.

(5) Rhaid i berson y cyflwynwyd iddo hysbysiad rheoliad 7 gydymffurfio â gofynion yr hysbysiad hwnnw.

(6) Caiff Asiantaeth yr Amgylchedd ar unrhyw adeg (gan gynnwys adeg ar ôl i'r cyfnod i gydymffurfio ddod i ben)—

(a) tynnu'r hysbysiad yn ei ôl;

(b) estyn y cyfnod i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn yr hysbysiad; neu

(c) gyda chydsyniad y person y cyflwynir yr hysbysiad iddo, addasu gofynion yr hysbysiad.

(7) Rhaid i Asiantaeth yr Amgylchedd dynnu'r hysbysiad yn ei ôl, estyn y cyfnod i gydymffurfio, neu addasu gofynion yr hysbysiad os cyfarwyddir hwy i wneud hynny gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 8(5).

### Apelau yn erbyn hysbysiadau rheoliad 7

**8.**—(1) Caiff person y cyflwynwyd iddo hysbysiad rheoliad 7, o fewn cyfnod o 28 niwrnod sy'n dechrau trannoeth y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo (neu unrhyw gyfnod hwy a ganiateir gan Weinidogion Cymru), apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn yr hysbysiad.

(2) Rhaid i apêl o dan y rheoliad hwn gael ei gwneud drwy i'r apelydd gyflwyno hysbysiad i Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i'r hysbysiad gynnwys datganiad o sail yr apêl neu fod gydag ef ddatganiad felly.

(4) Cyn penderfynu ar apêl o dan y rheoliad hwn, rhaid i Weinidogion Cymru, os gofyn yr apelydd neu Asiantaeth yr Amgylchedd iddynt wneud hynny, roi cyfle i'r apelydd neu'r Asiantaeth ymddangos ger eu bron a chael gwrandawiad gan berson a benodwyd gan Weinidogion Cymru at y diben hwnnw.

(5) Wrth benderfynu ar apêl o dan y rheoliad hwn, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo Asiantaeth yr Amgylchedd—

(a) i dynnu'r hysbysiad rheoliad 7 yn ei ôl;

(b) i addasu unrhyw un neu ragor o'i ofynion;

(c) i estyn y cyfnod i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad; neu

(ch) i wrthod yr apêl.

(6) Estynnir y cyfnod i gydymffurfio â hysbysiad rheoliad 7 y gwnaed apêl yn ei erbyn, yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd o dan baragraff (5), fel ei fod yn dod i ben ar y dyddiad pan fydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu'n derfynol ar yr apêl neu, os tynnir yr apêl yn ei hôl, ar ddyddiad ei thynnu'n ôl.

### Hysbysiad o adeiladu etc.

**9.** Rhaid i berson sydd yn bwriadu cael silwair, slyri neu olew tanwydd dan ei ofal neu ei reolaeth a hwnnw i gael ei gadw neu ei storio ar fferm mewn seilo, system storio slyri neu fan storio tanwydd a adeiladwyd, a ehangwyd yn sylweddol neu a ailadeiladwyd yn sylweddol ar y dyddiad pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym neu wedi hynny, roi i Asiantaeth yr Amgylchedd hysbysiad yn pennu'r math o strwythur sydd i'w ddefnyddio a'i leoliad o leiaf 14 o ddiwrnodau cyn bod y strwythur i'w ddefnyddio at gadw neu storio felly.

### Tramgwyddau a chosbau

**10.**—(1) Mae person sy'n mynd yn groes i reoliad 3(1), 3(4), 4(1), 5(1) neu 7(5) o'r Rheoliadau hyn yn euog o dramgwydd ac yn agored—

(a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol;

(b) o'i gollfarnu ar dditiad, i ddirwy.

(2) Mae person sy'n mynd yn groes i reoliad 9 yn euog o dramgwydd a bydd yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 2 ar y raddfa safonol.

### Dirymiadau

**11.** Dirymir yr offerynnau statudol a ganlyn i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru—

(a) Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 1991(**4**);

(b) Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 1997(**5**).

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

26 Mai 2010

(**4**) O.S. 1991/324.
(**5**) O.S. 1997/547.

## ATODLEN 1

Rheoliad 3(1)(a)

### Y GOFYNION AR GYFER SEILOS

**1.** Y gofyniad sydd i'w fodloni mewn perthynas â seilo yw ei fod yn cydymffurfio â'r darpariaethau a ganlyn yn yr Atodlen hon.

**2.** Rhaid i sylfaen y seilo—

(a) ymestyn y tu hwnt i unrhyw furiau sydd i'r seilo;

(b) cael o'i amgylch sianelau sydd wedi'u dylunio a'u hadeiladu fel eu bod yn casglu unrhyw elifiant silwair sy'n dianc o'r seilo; ac

(c) bod â darpariaeth ddigonol ar gyfer traenio'r elifiant hwnnw o'r sianelau hynny i danc elifiant drwy sianel neu bibell.

**3.** Rhaid i'r tanc elifiant beidio â dal llai na–

(a) yn achos seilo sy'n dal llai na 1,500 o fetrau ciwbig, 20 litr ar gyfer pob metr ciwbig o'r hyn y mae'r seilo yn ei ddal; ac

(b) yn achos seilo sy'n dal 1,500 o fetrau ciwbig neu fwy, 30 o fetrau ciwbig ac yn ychwanegol 6.7 litr ar gyfer pob metr ciwbig o'r hyn y mae'r seilo yn ei ddal uwchlaw 1,500 o fetrau ciwbig.

**4.**—(1) Rhaid i sylfaen y seilo—

(a) bod wedi'i ddylunio yn unol â'r cod ymarfer ar gyfer dylunio strwythurau concrit i gadw hylifau dyfrllyd a gyhoeddir gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 8007: 1987(**6**); neu

(b) bod wedi ei adeiladu gan ddefnyddio asffalt poeth wedi'i droelli yn unol â'r cod ymarfer ar gyfer dewis a defnyddio deunyddiau adeiladu a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 5502: Rhan 21: 1990(**7**).

(2) Rhaid i sylfaen y seilo, sylfaen a muriau ei danc elifiant a sianelau a muriau unrhyw bibellau fod yn anhydraidd.

**5.** Rhaid i sylfaen a muriau'r seilo, ei danc elifiant a'i sianelau a muriau unrhyw bibellau, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, allu gwrthsefyll ymosodiad gan elifiant silwair.

**6.** Ni chaniateir lleoli unrhyw ran o'r seilo, ei danc elifiant na'i sianelau nac unrhyw bibellau o fewn 10 o fetrau i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol na dyfroedd arfordirol y gallai elifiant silwair fynd i mewn iddynt petai'n dianc.

**7.** Os oes gan y seilo furiau cynnal—

(a) rhaid i'r muriau cynnal allu gwrthsefyll lleiafswm o lwythi mur sydd wedi'u cyfrifo ar y rhagdybiaethau ac yn y dull a ddangosir gan baragraffau 15.6 o'r cod ymarfer ar adeiladau a strwythurau ar gyfer amaethyddiaeth a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 5502: Rhan 22: 2003(**8**);

(b) rhaid i'r seilo beidio â bod wedi'i lwytho ar unrhyw adeg i ddyfnder sydd uwchlaw'r dyfnder eithaf sy'n gyson â'r rhagdybiaeth ddyluniol a wnaed o ran llwythi y muriau cynnal; ac

(c) rhaid arddangos hysbysiadau ar y muriau cynnal yn unol â pharagraff 18 o'r cod ymarfer hwnnw.

---

(**6**) Dyddiad cyhoeddi: 30 Hydref 1987. ISBN 0-580-16134-X.
(**7**) Dyddiad cyhoeddi: 31Rhagfyr 1990. ISBN 0-580-18348-3.
(**8**) Dyddiad cyhoeddi: 10 Mehefin 2003. ISBN 0-580-38654-6.

**8.** Yn ddarostyngedig i baragraff 9, rhaid i'r seilo, ei danc elifiant a'i sianelau ac unrhyw bibellau fod wedi'u dylunio a'u hadeiladu fel y'u bod yn debygol, gyda'r gwaith cynnal a chadw priodol, o barhau i fodloni gofynion paragraffau 2 i 5 ac, os yw'n gymwys, paragraff 7(a) am o leiaf 20 mlynedd.

**9.** Os oes unrhyw ran o danc elifiant islaw wyneb y tir, rhaid i'r tanc fod wedi'i ddylunio a'i adeiladu fel ei fod yn debygol o barhau i fodloni gofynion paragraffau 4 a 5 am o leiaf 20 mlynedd heb waith cynnal a chadw.

## ATODLEN 2

Rheoliad 4(1)

## Y GOFYNION AR GYFER SYSTEMAU STORIO SLYRI

**1.** Dyma'r gofynion sydd i'w bodloni mewn perthynas â system storio slyri.

**2.** Rhaid i sylfaen y tanc storio slyri, sylfaen a muriau unrhyw danc elifiant, sianelau a phydew derbyn, a muriau unrhyw bibellau fod yn anhydraidd.

**3.** Rhaid i sylfaen a muriau y tanc storio slyri, sylfaen ac unrhyw danc elifiant, sianelau a phydew derbyn, a muriau unrhyw bibellau fod wedi'u diogelu rhag cyrydiad yn unol â pharagraff 7 o'r cod ymarfer ar adeiladau a strwythurau ar gyfer amaethyddiaeth a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 5502: Rhan 50: 1993(**9**).

**4.** Rhaid i sylfaen a muriau y tanc storio slyri ac unrhyw bydew derbyn allu gwrthsefyll llwythi nodweddiadol sydd wedi'u cyfrifo ar y rhagdybiaethau ac yn y dull a ddangosir gan baragraff 5 o'r cod ymarfer ar adeiladau a strwythurau ar gyfer amaethyddiaeth a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig dan rif BS 5502: Rhan 50: 1993.

**5.**—(1) Rhaid bod gan unrhyw gyfleusterau a ddefnyddir i storio slyri dros dro cyn iddo gael ei drosglwyddo i danc storio slyri ddigon o le i storio—

(a) yr uchafswm o slyri (gan ddiystyru unrhyw slyri a fydd yn cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol i danc storio slyri) sy'n debygol o gael ei gynhyrchu ar y fangre mewn unrhyw gyfnod o ddau ddiwrnod; neu

(b) swm llai y mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cytuno'n ysgrifenedig ei fod yn ddigonol i osgoi unrhyw risg sylweddol o lygru dyfroedd dan reolaeth.

(2) Pan fo slyri yn llifo i mewn i sianel cyn cael ei ollwng i bydew derbyn a bod llif y slyri allan o'r sianel yn cael ei reoli gan lifddor, rhaid i'r hyn y gall y pydew derbyn ei ddal fod yn ddigonol i ddal yr uchafswm o slyri y gellir ei ollwng drwy agor y llifddor.

**6.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), rhaid bod yna ddigon o le yn y tanc storio slyri ar gyfer storio'r symiau tebygol o slyri a gynhyrchir o bryd i'w gilydd ar y fangre dan sylw, gan gymryd i ystyriaeth—

(a) y dull arfaethedig o ddefnyddio'r slyri, a graddfeydd ac adegau tebygol y defnydd hwnnw; a

(b) y materion a grybwyllir yn is-baragraff (3).

(2) Os bwriedir defnyddio'r slyri ar y fangre drwy ei daenu ar y tir, nid oes rhaid bod gan y tanc fwy o le i storio nag sy'n ddigonol, gan gymryd ystyriaeth o'r materion a grybwyllir yn is-baragraff (3), i ddal yr uchafswm o slyri sy'n debygol o gael ei gynhyrchu mewn unrhyw gyfnod o bedwar mis.

(3) Y materion sydd i'w cymryd i ystyriaeth ar gyfer is-baragraffau (1) a (2) yw—

(a) faint y gall unrhyw danc storio slyri arall ar y fangre ei ddal;

(**9**) Dyddiad cyhoeddi: 15 Ebrill 1993. ISBN 0-580-22053-2.

(b) faint o law (gan gynnwys eira, cenllysg neu eirlaw) sy'n debygol o dywallt neu draenio i mewn i'r tanc storio slyri yn ystod y cyfnod storio hwyaf sy'n debygol; ac

(c) yr angen i ddarparu o leiaf 750 milimedr o fwrdd rhydd yn achos tanc gyda muriau wedi'u gwneud o bridd a 300 milimedr o fwrdd rhydd ym mhob achos arall.

**7.** Ni chaniateir lleoli unrhyw ran o'r tanc storio slyri, nac unrhyw danc elifiant na sianelau na phydew derbyn o fewn 10 o fetrau i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol na dyfroedd arfordirol y gallai slyri fynd i mewn iddynt petai'n dianc oni chymerir rhagofalon y mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cytuno'n ysgrifenedig eu bod yn ddigonol i osgoi unrhyw risg sylweddol o lygru dyfroedd dan reolaeth.

**8.** Rhaid i'r tanc storio slyri ac unrhyw danc elifiant, sianelau, pibellau a phydew derbyn fod wedi'u dylunio a'u hadeiladu fel y'u bod yn debygol, gyda'r gwaith cynnal a chadw priodol, o barhau i fodloni gofynion paragraffau 2 i 4 am o leiaf 20 mlynedd.

**9.** Os nad yw muriau'r tanc storio slyri yn anhydraidd, rhaid i sylfaen y tanc—

(a) ymestyn y tu hwnt i'r muriau;

(b) cael o'i amgylch sianelau sydd wedi'u dylunio a'u hadeiladu fel eu bod yn casglu unrhyw slyri sy'n dianc o'r tanc;

(c) bod â darpariaeth ddigonol ar gyfer traenio'r slyri o'r sianelau hynny i danc elifiant drwy sianel neu bibell.

**10.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), os oes pibell draenio wedi'i gosod yn y tanc storio slyri neu yn unrhyw danc elifiant neu bydew derbyn mae'n rhaid bod dwy falf mewn cyfres ar y bibell a bod pellter o o leiaf 1 metr rhwng un falf a'r llall.

(2) Rhaid i bob falf allu cau llif y slyri drwy'r bibell a rhaid eu cadw wedi'u cau ac wedi'u cloi yn y sefyllfa honno pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â thanc storio slyri sy'n traenio drwy'r bibell i danc storio slyri arall os yw'r tanc arall yn dal yr un faint neu fwy neu os yw topiau'r tanciau ar yr un lefel â'i gilydd.

**11.** Yn achos tanc storio slyri gyda muriau o bridd rhaid peidio â llenwi'r tanc hyd at lefel sy'n caniatáu llai na 750 o filimetrau o fwrdd rhydd.

## ATODLEN 3

Rheoliad 5(1)

## Y GOFYNION AR GYFER MANNAU STORIO OLEW TANWYDD

**1.** Dyma'r gofynion sydd i'w bodloni mewn perthynas â man storio olew tanwydd.

**2.** Rhaid i'r man storio fod wedi'i amgylchynu â bwnd sy'n gallu cadw o fewn y fan honno—

(a) os mai dim ond un tanc storio tanwydd sydd o fewn y fan honno ac nad yw olew tanwydd yn cael ei storio mewn unrhyw fodd arall yno, cyfaint o olew tanwydd heb fod yn llai na 110 y cant o'r hyn y gall y tanc ei ddal;

(b) os oes mwy nag un tanc storio tanwydd o fewn y fan ac nad yw olew tanwydd yn cael ei storio mewn unrhyw fodd arall yno, cyfaint o olew tanwydd nad yw'n llai na'r mwyaf o—

(i) 110 y cant o'r hyn y gall y tanc mwyaf o fewn y fan ei ddal; neu

(ii) 25 y cant o gyfanswm cyfaint y cyfryw olew y gellid ei storio yn y tanciau o fewn y fan;

(c) os nad oes yna danc storio tanwydd o fewn y fan, cyfaint o olew tanwydd heb fod yn llai na 25 y cant o gyfanswm y cyfryw olew sy'n cael ei storio o fewn y fan ar unrhyw adeg;

(ch) mewn unrhyw achos arall, cyfaint o olew tanwydd nad yw'n llai na'r mwyaf o—

(i) 110 y cant o'r hyn y gall y tanc storio tanwydd neu, yn ôl y digwydd, y tanc mwyaf o fewn y fan, ei ddal;

(ii) os oes mwy nag un tanc storio tanwydd o fewn y fan, 25 y cant o gyfanswm cyfaint y cyfryw olew y gellid ei storio yn y tanciau o fewn y fan; neu

(iii) 25 y cant o gyfanswm cyfaint y cyfryw olew sy'n cael ei storio o fewn y fan ar unrhyw adeg.

**3.** Rhaid i'r bwnd a sylfaen y fan—

(a) bod yn anhydraidd i ddŵr ac olew; a

(b) bod wedi'u dylunio a'u hadeiladu fel bod ynddynt ddigon o gryfder a chyfanrwydd strwythurol fel eu bod gyda gwaith cynnal a chadw priodol yn debygol o barhau felly am o leiaf 20 mlynedd.

**4.** Rhaid i bob rhan o unrhyw danc storio tanwydd fod o fewn y bwnd.

**5.** Rhaid i unrhyw dap neu falf sydd wedi'u gosod yn sownd yn barhaol i'r tanc storio tanwydd y gellir gollwng olew tanwydd ohono i'r tu allan—

(a) hefyd fod o fewn y bwnd;

(b) bod wedi'u trefnu fel bod gollyngiadau drwyddynt yn fertigol a thuag i lawr; ac

(c) bod wedi'u cau ac wedi'u cloi yn y sefyllfa honno pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

**6.** Os oes tanwydd o'r tanc yn cael ei drosglwyddo drwy bibell ystwyth sydd wedi'u gosod yn sownd yn barhaol i'r tanc, rhaid i'r bibell—

(a) bod â thap neu falf wedi ei osod ar ei phen draw sy'n cau'n awtomatig pan nad yw'n cael ei defnyddio; a

(b) bod wedi'i chloi mewn modd sy'n sicrhau ei bod yn cael ei chadw o fewn y bwnd pan nad yw'n cael ei defnyddio.

**7.** Ni chaniateir lleoli unrhyw ran o'r man storio tanwydd na'r bwnd sy'n ei amgylchynu o fewn 10 o fetrau i unrhyw ddyfroedd croyw mewndirol na dyfroedd arfordirol y gallai olew tanwydd fynd i mewn iddynt petai'n dianc.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 1991, O.S. 1991/324 (fel y'i diwygiwyd) i'r graddau y mae O.S. 1991/324 (fel y'i diwygiwyd) yn ymwneud â Chymru.

Rhoddwyd gwybod i'r Comisiwn Ewropeaidd am y Rheoliadau hyn yn unol â Chyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor 98/34/EC sy'n gosod gweithdrefn ar gyfer darparu gwybodaeth ym maes safonau a rheoliadau technegol (OJ Rhif L 204, 21.7.98, t.37), fel y'i diwygiwyd.

Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sydd â silwair sy'n cael ei wneud neu ei storio dan ei ofal neu ei reolaeth i gadw'r cyfryw silwair mewn seilos sy'n bodloni gofynion Atodlen 1 ac i gymryd rhagofalon a chamau eraill ar gyfer atal llygru dyfroedd.

Mae rheoliadau 4 a 5 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sydd â slyri neu olew tanwydd dan ei ofal neu ei reolaeth i storio'r cyfryw silwair neu olew tanwydd mewn system storio slyri neu mewn tanc storio tanwydd sy'n bodloni gofynion Atodlenni 2 neu 3.

Mae rheoliad 6 yn darparu eithriadau rhag gofynion y Rheoliadau ar gyfer seilos, systemau storio slyri a thanciau storio tanwydd.

Mae rheoliadau 7 ac 8 yn caniatáu i Asiantaeth yr Amgylchedd gyflwyno hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i waith gael ei gwneud neu i ragofalon gael eu cymryd ar gyfer cwtogi'r risg o lygredd i ddyfroedd dan reolaeth a hefyd i ddarparu gweithdrefn i apelio yn erbyn hysbysiadau o'r fath.

Mae rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol i Asiantaeth yr Amgylchedd gael ei hysbysu o weithiau penodol i seilo, system storio slyri neu fan storio tanwydd.

Mae rheoliad 10 yn darparu bod mynd yn groes i reoliadau penodol yn dramgwydd troseddol.

Mae'r Rheoliadau yn diweddaru'r safonau sy'n gymwys i ddyluniad ac adeiladwaith seilos a systemau storio slyri.

Mae copïau o'r dogfennau a gyhoeddir gan y Sefydliad Safonau Prydeinig y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau i'w cael o unrhyw fannau gwerthiant sydd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig, drwy'r post oddi wrth y Sefydliad Safonau Prydeinig, Gwasanaethau Cwsmeriaid, 389 Chiswick High Road, Llundain, W4 4AL, drwy ffonio 020 8996 9001, neu drwy anfon e-bost at orders@bsi-global.com.

Ni chafodd Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn ei baratoi ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir unrhyw effaith ar y sector breifat na'r sector wirfoddol.